BT Group

In partnership with AbilityNet

Gwylio'r teledu a ffilmiau ar-lein unrhyw amser

Mae'r rhan fwyaf o'r prif sianelau teledu yn cynnig gwasanaethau teledu ar alw, am ddim, sy'n golygu y gallwch wylio eich hoff sioeau teledu a ffilmiau, hyd yn oed os byddwch wedi'u methu y tro cyntaf iddynt gael eu dangos.

Bydd y canllaw hwn yn esbonio hanfodion gwylio rhaglenni teledu ar-lein, er mwyn i chi allu gwylio eich hoff gyfres. Mae'r prif wasanaethau ar alw yn debyg iawn, felly byddwn yn defnyddio iPlayer y BBC fel enghraifft.

*Gall cyfarwyddiadau amrywio yn ôl model eich dyfais.

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

1. Sut i gofrestru ar BBC iPlayer
2. Sut i wylio rhywbeth ar BBC iPlayer

Cofrestru gyda BBC iPlayer

Noder: i ddechrau gwylio rhywbeth ar BBC iPlayer, bydd angen trwydded deledu arnoch.

1. Agorwch y porwr gwe.
2. Dewiswch y bar cyfeiriad/chwilio.
3. Teipiwch bbc.co.uk/iplayer a phwyso enter/return. Fel arall, gallwch deipio 'BBC iPlayer' i Google/peiriant chwilio arall a dewis y canlyniad perthnasol, neu lawrlwytho'r ap o'r siop apiau berthnasol. Am ragor o wybodaeth am lawrlwytho apiau, darllenwch ein dalen ffeithiau ar y pwnc drwy glicio ar y ddolen hon neu ei deipio yn eich porwr gwe: bt.com/seniorskills.
4. Cliciwch ar 'Sign in' i'r dde o logo'r BBC.
5. Cliciwch ar 'Register now'.
6. Gofynnir i chi ateb rhai cwestiynau, nodi cyfeiriad e-bost a chreu cyfrinair. Yna bydd gennych eich cyfrif iPlayer eich hun.
7. Yna cewch yr opsiwn i ddarllen a chytuno ar delerau ac amodau BBC iPlayer. Os byddwch yn dewis cytuno ar y rhain, yna byddwch yn barod i fwynhau ystod eang o gyfresi, sioeau a ffilmiau.



BT Group

In partnership with AbilityNet

Gwylio'r teledu a ffilmiau ar-lein unrhyw amser parhad

Gwylio rhywbeth ar BBC iPlayer

1. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi mewngofnodi i BBC iPlayer (dylai eich enw ymddangos ar y chwith ar y brig, lle'r oedd y botwm 'sign in' yn flaenorol).
2. Cliciwch ar y bar chwilio yng nghornel dde uchaf y sgrin a theipio enw'r rhaglen neu ffilm rydych eisiau ei gwylio. Pwyswch enter/ return.
3. Yna gallwch ddewis y rhaglen neu bennod yr hoffech ei gwylio.
4. Mae BBC iPlayer yn un o lawer o blatfformau ffrydio sydd ar gael i'ch dysgwr. Mae rhai o'r rhai eraill yn cynnwys:
   Channel 4: www.channel4.com
   ITV Hub: www.itv.com/hub/itv
   YouTube: www.youtube.com

Er bod yr enghreifftiau hyn am ddim i'w defnyddio, mae angen tanysgrifiad taledig ar gyfer rhai eraill (er enghraifft Netflix neu Amazon Prime Video). Os hoffech gofrestru gydag un o'r platfformau hyn, bydd y broses yn debyg iawn i'r un uchod, ond gofynnir i chi roi manylion eich cerdyn er mwyn iddynt allu cymryd taliad misol.

Cyngor, awgrymiadau a dysgu pellach:

I gael gwybodaeth am wylio fideos a rhaglenni teledu ar eich dyfais, gallwch chi daro golwg ar yr adnodd am ddim isod drwy glicio'r ddolen neu deipio'r cyfeiriad yn eich porwr gwe:

Learn My Way – Online Entertainment: https://new.learnmyway.com/explore-all-subjects/online-entertainment